# Cyrchfannau Myfyrwyr sy'n Gadael Addysg Uwch 2011/12

Ionawr 2013

Defnydd Swyddogol yn unig

(1) / /201

(2) / /201

(3) / /201

(02) (03) (05) (06) (07) (08)

**Llenwch/newidiwch y manylion fel y bo'n briodol**

Enw

Cyfeiriad

Cod Post Ffôn

E-bost

Prifysgol/coleg a fynychwyd

Teitl y cwrs a astudiwyd

**Anfonwyd yr holiadur hwn atoch gan i chi gwblhau cymhwyster addysg uwch rhwng 1 Ionawr a 31 Gorffennaf 2012. Darperir mwy o wybodaeth am bwrpas yr arolwg a'r defnydd a wneir o'r wybodaeth a ddarparwch yn y llythyr a gawsoch gyda'r holiadur hwn.**

Mae 'blychau ticio' sy'n edrych fel hyn ◯ yn gofyn i chi dicio **UN ATEB YN UNIG** ar gyfer y cwestiynau hynny.

Mae 'blychau ticio' sy'n edrych fel hyn ☐ yn gofyn i chi dicio **POB ATEB SY'N BERTHNASOL I CHI**.

## ADRAN A Beth y byddwch chi'n ei wneud ar 14 Ionawr 2013?

**C1 Ar 14 Ionawr a fyddwch chi...?**

**Byddwch cystal â thicio'r HOLL weithgareddau y byddwch chi'n eu gwneud ac yna nodwch pa un ohonynt sydd bwysicaf i chi (gallai fod yr un sy'n eich helpu i symud ymlaen at yr yrfa yr ydych chi ei heisiau).**

| | Gweithgareddau | Pwysicaf | |
|---|---|---|---|
| Yn gweithio'n **amser-llawn** (gan gynnwys gwaith hunangyflogedig/ar eich liwt eich hun, gwaith gwirfoddol neu waith di-dâl arall, datblygu portffolio/arfer creadigol proffesiynol, neu swydd hyfforddi (internship)) | ☐ | ◯ | (1) |
| Yn gweithio'n **rhan-amser** (gan gynnwys gwaith hunangyflogedig/ar eich liwt eich hun, gwaith gwirfoddol neu waith di-dâl arall, datblygu portffolio proffesiynol/ymarfer creadigol, neu swydd hyfforddi) | ☐ | ◯ | (2) |
| Yn ddi-waith ac yn chwilio am waith | ☐ | ◯ | (3) |
| Ar fin dechrau swydd yn ystod y mis nesaf | ☐ | ◯ | (4) |
| Yn dilyn astudiaeth, hyfforddiant neu ymchwil pellach **amser-llawn** | ☐ | ◯ | (5) |
| Yn dilyn astudiaeth, hyfforddiant neu ymchwil pellach **rhan-amser** | ☐ | ◯ | (6) |
| Yn cymryd amser er mwyn teithio | ☐ | ◯ | (7) |
| Yn gwneud rhywbeth arall | ☐ | ◯ | (8) |

## ADRAN B  Eich cyflogaeth ar 14 Ionawr 2013

**Os bydd gennych unrhyw waith (gan gynnwys gwaith hunangyflogedig/ar eich liwt eich hun, gwaith gwirfoddol neu waith di-dâl arall, datblygu portffolio/arfer creadigol proffesiynol, neu swydd hyfforddi) ar 14 Ionawr 2013, parhewch â'r adran hon. Os na fydd, ewch i ADRAN C.**

**C2 Os bydd gennych fwy nag un swydd ar 14 Ionawr 2013, sawl swydd fydd gennych yn gyfan gwbl?** ☐

**Ar gyfer y cwestiynau canlynol, byddwch cystal â rhoi manylion yr hyn a ystyriwch fydd eich PRIF swydd. Gallai eich prif swydd fod yr un y byddwch chi'n treulio'r mwyaf o amser yn ei gwneud, yr un fydd yn talu'r mwyaf o arian i chi, neu'r un sy'n gysylltiedig â'ch cynlluniau at y dyfodol.**

**C3 Beth fydd teitl eich swydd?**

**C4 Disgrifiwch yn fyr eich dyletswyddau** (e.e. cynnal a diweddaru mewnrwyd y cwmni).

**C5 Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau ar ba sail y byddwch chi'n cael eich cyflogi ar 14 Ionawr 2013?**

- Hunangyflogedig/ar fy liwt fy hun (01)
- Yn dechrau fy musnes fy hun (02)
- Ar gytundeb parhaol neu benagored (03)
- Ar gytundeb cyfnod penodol yn para am 12 mis neu'n hwy (04)
- Ar gytundeb cyfnod penodol yn para am lai na 12 mis (05)
- Gwaith gwirfoddol (06)
- Swydd hyfforddi (internship) (07)
- Yn datblygu portffolio proffesiynol/ymarfer creadigol (08)
- Gwaith dros dro (gan gynnwys fel athro llanw) (09)
- Arall (10)

**C6 Beth fydd eich cyflog blynyddol ar gyfer eich prif gyflogaeth i'r fil o bunnoedd agosaf cyn treth?**

(£) ______ Gwaith di-dâl ☐

**C7 Os byddwch chi'n gweithio'n rhan-amser yn eich prif swydd, tua faint o oriau'r wythnos y byddwch chi'n gweithio?**

**C8 Os nad hon fydd eich unig gyflogaeth ar 14 Ionawr 2013, beth yw eich amcangyfrif o gyfanswm eich enillion am flwyddyn i'r fil o bunnoedd agosaf cyn treth?**

(£) ______

**C9 Beth yw enw'r cwmni/corff y byddwch chi'n gweithio iddo?** (Os cawsoch y swydd y byddwch chi'n ei gwneud drwy asiantaeth, rhowch enw'r lle y byddwch chi'n gweithio ar 14 Ionawr 2013 ac nid enw'r asiantaeth.)

**C10 Beth mae'r cwmni/corff y byddwch chi'n gweithio iddo yn ei wneud yn bennaf?**
(e.e. dylunio meddalwedd, addysg ysgol gynradd).

**C11 Ble y byddwch chi'n gweithio ac, os yn y DU, beth yw'r cod post?**

Tref/dinas/ardal ______ Cod post (Y DU YN UNIG) ☐☐☐☐☐☐☐

Gwlad os nad yn y DU ______

**C12 A oedd arnoch angen y cymhwyster a gawsoch yn ddiweddar i gael y swydd y byddwch chi'n ei gwneud ar 14 Ionawr 2013 (y cymhwyster ei hun, nid y pwnc a astudiwyd gennych)?**

- Oedd: roedd y cymhwyster yn ofyniad ffurfiol (11)
- Oedd: er nad oedd y cymhwyster yn ofyniad ffurfiol fe roddodd fantais i mi (12)
- Nac oedd: nid oedd angen y cymhwyster (13) **EWCH I C14**
- Ddim yn gwybod (14) **EWCH I C14**

**C13 Hyd y gwyddoch, beth oedd bwysicaf i'ch cyflogwr am eich cymhwyster?**

- Y pwnc/pynciau a astudiwyd (1)
- Lefel yr astudiaeth (2)
- Profiad rhyngosod/profiad gwaith (a gafwyd fel rhan o'r cwrs) (4)
- Nid oedd yr un yn bwysicach na'i gilydd (5)
- Ddim yn gwybod (8)

## ADRAN B Eich cyflogaeth ar 14 Ionawr 2013 (parhad)

**C14 Pam y gwnaethoch chi benderfynu cymryd y swydd y byddwch chi'n ei gwneud ar 14 Ionawr 2013?** Ticiwch yr HOLL resymau pam y gwnaethoch benderfynu cymryd y swydd ac yna nodwch UN PRIF reswm dros eich penderfyniad.

| | Rhesymau | Prif reswm |
|---|---|---|
| Roedd yn cyd-fynd â'm cynllun gyrfa/roedd yr union fath o waith roeddwn i ei eisiau | ☐ | ◯ (01) |
| Hon oedd y swydd orau a gafodd ei chynnig i mi | ☐ | ◯ (02) |
| Hon oedd yr unig swydd a gafodd ei chynnig i mi | ☐ | ◯ (03) |
| Roedd yn gyfle i symud ymlaen yn y corff | ☐ | ◯ (04) |
| I weld a fyddwn yn hoffi'r math o waith dan sylw | ☐ | ◯ (05) |
| I ennill ac ehangu profiad er mwyn cael y math o swydd rydw ei gwir eisiau | ☐ | ◯ (06) |
| Roedd y swydd yn y lleoliad iawn | ☐ | ◯ (07) |
| Roedd y swydd yn talu'n dda | ☐ | ◯ (08) |
| Er mwyn ennill bywoliaeth/talu dyledion | ☐ | ◯ (09) |

**C15 Sut y cawsoch wybod gyntaf am y swydd hon?**

- Eich prifysgol/coleg (e.e. Gwasanaeth Gyrfaoedd, darlithydd, gwefan) ◯ (01)
- Y cyfryngau (e.e. hysbyseb mewn papur newydd/cylchgrawn) ◯ (02)
- Gwefan cyflogwr ◯ (03)
- Wedi gweithio yno o'r blaen (gan gynnwys swydd hyfforddi) ◯ (08)
- Cysylltiadau personol, gan gynnwys teulu a chyfeillion ◯ (05)
- Rhwydweithio proffesiynol ◯ (06)
- Ymholiad anffurfiol ◯ (07)
- Asiantaeth/gwefan recriwtio ◯ (04)
- Arall ◯ (09)

**C16 Gan ddal i feddwl am eich cyflogwr ar 14 Ionawr 2013, a fuoch yn gweithio i'r cyflogwr hwn cyn neu yn ystod y rhaglen astudio a gwblhawyd gennych yn ddiweddar?**

- Do: cyn fy rhaglen astudio ◯ (1)
- Do: yn ystod fy rhaglen astudio ◯ (2)
- Do: cyn ac yn ystod fy rhaglen astudio ◯ (3)
- Naddo **EWCH I ADRAN C** ◯ (4)

**C17 Ym mha rai o'r ffyrdd a restrir isod y gwnaethoch weithio i'r cyflogwr hwn?** Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

- Ar leoliad rhyngosod ☐ (01)
- Ar fath arall o leoliad neu waith prosiect ☐ (02)
- Swydd yn ystod y gwyliau ☐ (03)
- Gwaith amser-llawn neu ran-amser drwy gydol y flwyddyn ☐ (04)
- Gwaith amser-llawn neu ran-amser yn ystod y tymor ☐ (05)
- Swydd hyfforddi ☐ (06)
- Mewn ffyrdd eraill ☐ (07)

## ADRAN C Statws athro newydd gymhwyso yn unig

**Cwblhewch yr adran hon os rhoddodd y cymhwyster a gwblhawyd gennych rhwng 1 Ionawr a 31 Gorffennaf 2012 statws athro newydd gymhwyso yn y DU i chi. Os na wnaeth, ewch i ADRAN CH.**

**C18 A fyddwch chi'n cael eich cyflogi fel athro ar 14 Ionawr 2013?** Byddaf ◯ (1) Na fyddaf **EWCH I C22** ◯ (2)

**Atebwch C19 dim ond os gwnaethoch gymhwyso fel athro mewn prifysgol neu goleg yn yr Alban.**

**C19 A fyddwch chi'n cael eich cyflogi fel athro drwy Gynllun Sefydlu Athrawon GTC yr Alban?** Byddaf ◯ (1) Na fyddaf ◯ (2)

**C20 A fyddwch chi'n addysgu mewn ysgol neu goleg wedi'i gyllido gan y wladwriaeth neu heb ei gyllido gan y wladwriaeth?**

- Ysgol neu goleg wedi'i gyllido gan y wladwriaeth ◯ (1)
- Ysgol neu goleg wedi'i gyllido, a heb ei gyllido, gan y wladwriaeth ◯ (2)
- Ysgol neu goleg heb ei gyllido gan y wladwriaeth ◯ (3)
- Ddim yn gwybod ◯ (4)

**C21 A fyddwch chi'n addysgu mewn ysgol gynradd neu ysgol uwchradd, neu mewn coleg neu sefydliad addysgol arall?**

- Cynradd ◯ (1)
- Uwchradd ◯ (2)
- Cynradd ac uwchradd ◯ (3)
- Coleg (e.e. 6ed Dosbarth) neu sefydliad addysgol arall ◯ (4)

**C22 Os na fyddwch chi'n cael eich cyflogi fel athro ar 14 Ionawr 2013 neu os byddwch ar gytundeb addysgu dros dro (gan gynnwys blwyddyn brawf yn yr Alban), a fyddwch chi'n chwilio am swydd addysgu ar 14 Ionawr 2013?** Byddaf ◯ (1) Na fyddaf ◯ (2)

# ADRAN CH Eich astudiaeth, hyfforddiant neu ymchwil pellach

**Os byddwch yn ymgymryd ag astudiaeth neu hyfforddiant pellach, neu wedi'ch cofrestru fel myfyriwr ymchwil ar 14 Ionawr 2013, parhewch â'r adran hon os gwelwch yn dda. Os na fyddwch, ewch i ADRAN D.**

**C23** **Os byddwch chi'n dilyn mwy nag un cwrs ar 14 Ionawr 2013, faint o gyrsiau y byddwch chi wedi cofrestru arnynt yn gyfan gwbl?** ☐

**Ar gyfer y cwestiynau canlynol, byddwch cystal â rhoi manylion yr hyn a ystyriwch fydd eich PRIF astudiaeth, hyfforddiant neu ymchwil. Gallai eich prif astudiaeth, hyfforddiant neu ymchwil fod yr un y byddwch chi'n treulio'r mwyaf o amser yn ei wneud, neu'r un sy'n gysylltiedig â'ch cynlluniau at y dyfodol.**

**C24** **Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau y math o gymhwyster y byddwch chi'n ceisio ei ennill?**

- Gradd uwch, drwy ymchwil yn bennaf (e.e. PhD, DPhil, MPhil) ○ (01)
- Gradd uwch, drwy gwrs a addysgir yn bennaf (e.e. MA, MSc) ○ (02)
- Diploma neu dystysgrif i raddedigion (gan gynnwys TAR) ○ (03)
- Cymhwyster proffesiynol (e.e. Cwrs Ymarfer Cyfreithiol, Y Sefydliad Siartredig dros Farchnata) ○ (06)
- Gradd gyntaf (e.e. BA, BSc, MEng) ○ (04)
- Diploma neu dystysgrif arall ○ (05)
- Cymhwyster arall ○ (07)
- Ddim yn ceisio cymhwyster ffurfiol ○ (98)

**C25** **Beth yw enw'r cwrs y byddwch wedi cofrestru arno?** (e.e. MSc mewn Cyfryngau Rhyngweithiol)

☐

**C26** **Pa bwnc y byddwch chi'n ei astudio, yn hyfforddi ynddo neu'n ymchwilio iddo?**

☐

**C27** **Beth yw enw'r brifysgol neu goleg lle byddwch wedi cofrestru?**

☐

**C28** **Sut y byddwch yn cyllido eich astudiaeth, hyfforddiant neu ymchwil yn bennaf?**

- Hunanariannu (e.e. cynilion/benthyciadau/cyflogaeth) ○ (01)
- Grant neu wobr (e.e. Ysgoloriaeth Cyngor Ymchwil bwrsari(au)) ○ (02)
- Rhoddodd fy nghyflogwr gymorth ariannol (e.e. ffioedd cwrs, rhoi amser i astudio) ○ (04)
- Nawdd ○ (03)
- Arall ○ (05)

# ADRAN D Eich profiad cyffredinol o addysg uwch

**Diolch i chi am ddweud wrthym beth y byddwch chi'n ei wneud ar 14 Ionawr 2013.**
**Yn olaf, a fyddech cystal â rhoi eich barn am eich profiad cyffredinol o addysg uwch.**

**C29** **Pa mor dda wnaeth eich profiad cyffredinol o addysg uwch eich paratoi ar gyfer cyflogaeth?**

| Yn dda iawn | Yn dda | Ddim yn dda iawn | Ddim yn dda o gwbl | Ni allaf ddweud |
|---|---|---|---|---|
| ○ (1) | ○ (2) | ○ (3) | ○ (4) | ○ (5) |

**C30** **Pa mor dda wnaeth eich profiad cyffredinol o addysg uwch eich paratoi ar gyfer astudiaeth bellach?**

| Yn dda iawn | Yn dda | Ddim yn dda iawn | Ddim yn dda o gwbl | Ni allaf ddweud |
|---|---|---|---|---|
| ○ (1) | ○ (2) | ○ (3) | ○ (4) | ○ (5) |

**C31** **Pa mor dda wnaeth eich profiad cyffredinol o addysg uwch eich paratoi ar gyfer bod yn hunangyflogedig/gweithio ar eich liwt eich hun neu ar gyfer dechrau eich busnes eich hun?**

| Yn dda iawn | Yn dda | Ddim yn dda iawn | Ddim yn dda o gwbl | Ni allaf ddweud |
|---|---|---|---|---|
| ○ (1) | ○ (2) | ○ (3) | ○ (4) | ○ (5) |

# ADRAN DD Diolch i chi am gwblhau'r holiadur hwn

**Cyn i chi gyflwyno'r ffurflen hon, cymerwch ychydig o funudau i sicrhau eich bod wedi ateb POB cwestiwn sy'n berthnasol i chi, a'ch bod wedi eu hateb yn gywir, os gwelwch yn dda. DYCHWELWCH Y FFURFLEN YN YR AMLEN AMGAEEDIG.**

| Eich llofnod | Dyddiad dd/mm/bbbb |
|---|---|

Mae'n bosibl y cysylltir â chi fel rhan o arolwg dilynol a gynhelir ymhen tair blynedd. Os nad ydych am gael eich cynnwys, ticiwch yma ☐.

© Higher Education Statistics Agency Limited 2013